

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Chwefror 8 2022 a gynhaliwyd yn Y Ganolfan ac yn rhithiol ar Microsoft Teams

18.30 – 19.00

Cyflwyniad gan Andrew Basford a John Meirion Davies - Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn anffodus, oherwydd problemau gyda'r system sain bu rhaid gohirio'r cyflwyniad yma gan Andrew Basford a John Meirion Davies. Bydd y Clerc yn trefnu iddynt ddod i annerch y Pwyllgor Llawn mewn cyfarfod Arbennig, wyneb yn wyneb, yn y dyddiau nesaf.

19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref

Cyrhaeddodd y Cadeirydd, Cyng Llywelyn Rhys i arwain y cyfarfod Rheolaidd.

Rhoddyd caniatâd i'r Clerc recordio'r cyfarfod.

Presennol : Cynghorwyr :- Selwyn Griffiths, Richard Williams, Malcolm Humphreys, Carol Hayes, Alwyn Gruffydd, Aled Griffith, Gwilym Jones, Ian Wyn Jones, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Nia Jeffreys

Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cyng Jason Humphreys

255.2.22 Ymddiheuriadau :- Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Stuart Nashir-Hallard, Cyng Bethan Rees Jones

256.2.22. Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

Roedd y Cadeirydd wedi bwriadu dilyn i fyny rhai o'r pwyntiau oedd yn y cyflwyniad gan iddo fod yn gyfarwydd â chynnwys cyflwyniad cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd yn credu ei bod yn bwysig iawn i ail-drefnu'r cyfarfod fel Cyfarfod Arbennig yn y dyddiau nesaf fel bod y Cynghorwyr yn llwyr ymwybodol o'r sefyllfa bryderus ac o'r cydweithio sydd yn bodoli rhwng asiantaethau gwahanol er mwyn ceisio datrys yr anghydfod.

Mynegodd fodlonrwydd fod yr haint Omicron i'w weld yn pylu a'i effeithiau yn mynd yn raddol wanach. Roedd yn gobeithio gweld pethau'n dod yn ôl i normal yn fuan.

Eglurodd fod y Rhaglen yn un hir ac roedd yn apelio am gydweithrediad y Cynghorwyr i symud pethau ymlaen er mwyn cael cyfarfod mor effeithlon â phosibl.

257.2.22. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

➤ **Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Ionawr 11 2022**

Cafwyd cywiriad gan Cyng Malcolm Humphreys ym mater 236.1.22 – newid y sylwadau i :-“wedi ymddiheuro am orfod gadael y cyfarfod yn fuan”

Cafwyd y Cofnodion yn gywir wedi'r cywiriad yn ôl cynnig Cyng Malcolm Humphreys,

Cyng Gwilym Jones yn eilio.

➤ **Cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Eiddo Ionawr 25 2022**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio.

258.2.22. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Carol Hayes - Mater 289.2.22 Ceisiadau Ariannol - Yr Wylan ; Y Ganolfan

Cyng Aled Griffith – Mater 289.2.22 Ceisiadau Ariannol – Tremadog 200

Cyng Gwilym Jones - Mater 289.2.22 Ceisiadau Ariannol - Cyfeillion Morfa Bychan

Cyng Malcolm Humphreys - Mater 289.2.22 Ceisiadau Ariannol - Cae Pawb

Cyng Richard Williams - Mater 289.2.22 Ceisiadau Ariannol - Cae Pawb

Cyng Alwyn Gruffydd - Mater 289.2.22 Ceisiadau Ariannol - Tremadog 200; Cyfeillion Ysgol y Gorlan; Clwb Snwcer; Yr Wylan; Neuadd Goffa Tremadog

Materion i'w dwyn gerbron :-

259.2.22 Cynnig Cyng Aled Griffith – Holi Cyngor Gwynedd am berchnogaeth ffyrdd cefn tu ôl i dai Stryd y Llan, Tremadog

Eglurodd Cyng Aled Griffith fel y byddai gwella cyflwr y lôn gefn yma yn golygu y gallai trigolion Heol yr Eglwys gael mynediad i gefn y tai er mwyn parcio eu ceir. Byddai hyn wedyn yn rhyddhau llefydd parcio ar Heol yr Eglwys ac yn lliniaru tipyn ar y broblem parcio, yn enwedig ym misoedd yr haf.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

260.2.22 Cynnig Cyng Aled Griffith – Cais i lanhau ochrau ac ysgubo llwybr Lon Haearn Bach (Cyt) o Borthmadog i Dremadog.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio.

261.2.22 Cyng Jason Humphreys :- Cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.

Yn absenoldeb Cyng Jason Humphreys

Penderfynwyd :- gadael y mater ar y bwrdd

262.2.22 Cyng Malcolm Humphreys:- Cynnig llythyru'r Awdurdod Iechyd i gwyno am brinder deintyddion NHS ym Mhorthmadog.

Cytunwyd fod darpariaeth gwasanaethau deintyddion yn ddiffygiol ym Mhorthmadog. Aethpwyd i sôn am wasanaethau iechyd yn gyffredinol yn yr ardal a nodwyd gan y Clerc fod y mater yma yn codi o ohebiaeth cyfarfod mis Mawrth lle gellir ei drafod ymhellach.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig yn ôl cynnig Cyng Malcolm Humphreys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

263.2.22 Cyng Richard Williams:- Cynnig ail gysylltu efo Sion Bryn Roberts i drefnu ail-sefydlu Clwb Ieuenticid.

Roedd y Clerc wedi rhannu gwybodaeth i'r Cynghorwyr yn amlinellu darpariaeth gweithdareddau i bobl ifanc gan Nia Heledd Rees, Gweithiwr Cymorth Ieuenticid Gwynedd. Roedd y Cyng Nia Jeffreys am gofnodi ei diolch i Nia Heledd Rees am y gwaith gwyth y

mae yn ei wneud efo pobl ifanc yr ardal ac roedd yn canmol y rhaglen yn arw.

Penderfynwyd :- gwahodd Nia Heledd Rees a Sion Bryn Roberts i gyfarfod Llawn o'r Cyngor Tref er mwyn iddynt roi amlinelliad o'u gwaith gyda phobl ifanc yr ardal a chanfod y ffordd ymlaen yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio.

264.2.22 Cyng Selwyn Griffiths :- Cynnig bod y Cyngor yn ysgrifennu i'r Adran Gorfodaeth Cynllunio i holi sut mae nhw am weithredu ar y 'cwt bugail' sydd wedi ei leoli yn Siloam Cottage, Morfa Bychan er bod y cais wedi ei wrthod.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

265.2.22 Penderfynu ar leoliad amgen i lechen Tŷ Moelwyn

Penderfynwyd :- y Clerc i sgwennu i Gyngor Gwynedd ynglyn â'r posibilrwydd o osod y llechen ar wal y Cob, mor agos â phosib i gerflun Madocks yn ôl cynnig Cyn Carol Hayes, Cyng Richard Williams yn eilio.

266.2.22 Cyng Ian Wyn Jones :- Cynnig cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â Ilifogydd Cae Pawb

Gan fod Cyng Ian Wyn Jones wedi derbyn gwybodaeth fod gwaith ar y gweill i glirio'r rhan yma o'r Cyt cyn diwedd mis Mawrth

Penderfynwyd :- gadael y mater ac aros i weld os caiff y gwaith ei gwblhau.

267.2.22 Cyng Richard Williams :- Cynnig ysgrifennu cais i Gyngor Gwynedd roi 'Compulsory Purchase Order' ar Felin yr Wyddfa er mwyn ei addasu i greu cartrefi fforddiadwy.

Penderfynwyd :- trafod y mater gyda Gohebiaeth 16

268.2.22 Argymhellion gan yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Llawn :-

- Caniatau i'r Clerc gario ymlaen i archebu fflagiau i drofan Bodawen.
- Caniatau i'r Clerc gario ymlaen i gyflogi'r hebogwr eto eleni.
- Caniatau i'r Clerc gario ymlaen i archebu arwydd newydd i Gae Chwarae Bodawen (ers Pwyllgor Eiddo 30.11.21)

Penderfynwyd :- cymeradwyo'r argymhellion i gyd.

269.2.22. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Mawrth 8 2022 = Chwefror 26 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- Cyng Nia Jeffreys :- Cynnig ariannu Diffibriliwr ar gyfer Cerrig yr Afon, Porthmadog
- Cyng Jason Humphreys :- Cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.

270.2.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

GOHEBIAETH

271.2.22, Y GANOLFAN, Ymateb i 219.12.21 Rheolaeth dros y Ganolfan

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

272.2.22, Y GANOLFAN, Ymateb i 172.11.21 a 174.11.21

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

273.2.22, DR SIMON BROOKS, Ebst o ymddiswyddiad fel Cynghorydd Tref

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i yrru llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth

274.2.22 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i ail-yrru llythyr 2.8.21 Biniau Bodawen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

275.2.22 Y GANOLFAN, Ymateb i ail-yrru 74.7.21 yn gofyn am Gofnodion Cyfarfod Blynyddol

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

276.2.22 CYNGOR TREF NEFYN, Cais i lenwi holiaduron

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i yrru llythyr yn egluro fod y Cyngor Tref eisoes wedi llenwi'r holiaduron.

277.2.22 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i 252.1.22 Cyflwr y Parc

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i sgwennu'n ôl i ddweud fod y Cyngor yn edrych ymlaen i dderbyn yr Adroddiad.

278.2.22 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i 246.1.22 Goleuo ffordd waelod Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac aros am yr Adroddiad ymhen y mis.

279.2.22 CAE PAWB, Ymateb i ail-yrru cais am restr eiddo 22.2.21

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gofalu bod copi o'r rhestr ar gael er gwybodaeth.

280.2.22 DEBORAH ASHLEY, Cais i'r Cyngor Tref brynu diffibрилиwr Morfa Bychan

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth – gweler sylwadau 284.2.22.

281.2.22 IWAN EVANS C.G., Ymateb i ail-yrru 181.4.21 Creigiau Tremadog

Penderfynwyd :- y Clerc i wneud ymholiadau gyda chwmni Colin Jones, Rock Engineering (a wnaeth y gwaith o ddiogelu'r graig ymhen arall o Heol Dulyn nôl yn y 70au) er mwyn canfod pwy ddaru gomisiynu a thalu am y gwaith ac felly pwy oedd perchennog y tir.

282.2.22 LINDA WYN ROBERTS, Llythyr o ymddiswyddiad fel Cynghorydd Tref

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i yrru llythyr o ddiolch iddi am ei gwasanaeth

283.2.22 ALDI, PORTHMADOG, Ymateb i 241.1.22 cais i osod hen loches Tesco ar dir Aldi

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth. Cytunodd y Cyng Aled Griffith i gyd-gordio'r cynllun.

284.2.22 CALON HEART, Cynnig grant i brynu diffibрилиwr

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i holi ar ran Deborah Ashley (280.2.22)

am bris gosod Diffibriliwr ym Morfa Bychan.

285.2.22 ROLAND WYN EVANS C.G., Ebst am Nodyn Briffio Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy

, Nodyn Briffio Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy

(10 tudalen ,copi electronig yn unig)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

286.2.22 PAT WILLIAMS, Cyflwr peryglus Melin Yr Wyddfa

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth gan fod y Clerc wedi derbyn a rhannu copi (gyda chaniatâd Pat Williams) o ateb Gareth Jones i'w llythyr gwreiddiol yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa. Nodwyd mai cyfrifoldeb perchennog yr adeilad yw sicrhau diogelwch y safle. Bydd Cyng Nia Jeffreys yn rhannu manylion perchennog y safle gyda'r Clerc.

287.2.22 LUNED FON JONES, Cadarnhau Archwiliad Mewnol 2021-22

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

288.2.22 MATERION ARIANNOL

Soniodd y Clerc fod cytundeb y peiriant llungopïo yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth a bod yr un cwmni, Arena Group, yn cynnig cytundeb 5 mlynedd newydd yn rhatach. Rhoddwyd caniatâd iddi lofnodi i gytuno ar y cytundeb newydd.

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Ionawr 2022	£	00.29
------	-----------------------	---	-------

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl Cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Ionawr 2022	£	47.00
2	Marian Roberts	Costau Teithio Ionawr 2022	£	5.88
3	Marian Roberts	Cyflog Clerc Ionawr 2022	£	639.17
4	Marian Roberts	Inc du i'r printer	£	14.86
4	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Ionawr 2022	£	160.07
6	Marian Roberts	24 stamp ail ddsbarth	£	15.84
7	Gareth Griffiths	Gwasanaeth goleuadau coed Nadolig 2021	£	900.00
8	Penrhyn Hire Ltd	Llogi cherry picker / goleuadau Nadolig	£	158.40
9	R.J.Electics	"Tensile load testing" goleuadau Nadolig	£	696.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Lwfans Blynyddol Cynghorwyr

Ffurflenni i'w llenwi er mwyn creu record HMRC a thynnu treth incwm o'r lwfans. Angen eu dychwelyd i'r Clerc erbyn **28.2.2022** er mwyn cael taliad mis Mawrth allan o gyllideb 2021/2022

289.2.22 Ceisiadau Ariannol 2021/2022 –

ENW'R ELUSEN/ CYMDEITHAS/ CLWB	CYFRANIAD 2021/2022	CYNNIG/ EILIO
Cyfraniadau A137		
1. Tremadog 200 Digwyddiadau	£1,500 I'w rannu rhwng y 2 gais	Cyng. Gwilym Jones Cyng. Ian Wyn Jones
2. Tremadog 200 Prosiectau Amgylcheddol	£1,500 I'w rannu rhwng y 2 gais	Cyng. Gwilym Jones Cyng. Ian Wyn Jones
3. Cylch Meithrin y Gorlan Fach	£1,000	Cyng. Aled Griffith Cyng. Alwyn Gruffydd
4. Cyfeillion Ysgol y Gorlan	£200	Cyng. Selwyn Griffiths Cyng. Carol Hayes
Cyfraniadau A19 Llesiant		
5. Clwb Peldroed Ieuentid Porthmadog	£1,000	Cyng. Richard Williams Cyng. Ian Wyn Jones
6. Clwb Pêl Droed Porthmadog	£2,500	Cyng. Selwyn Griffiths Cyng. Carol Hayes
7. Cyfeillion Morfa Bychan	£500	Cyng. Selwyn Griffiths Cyng. Alwyn Gruffydd
8. Clwb Rhandiroedd Cae Pawb	£600	Cyng. Carol Hayes Cyng. Alwyn Gruffydd
9. Clwb Chwaraeon Madog	£3,000	Cyng. Alwyn Gruffydd Cyng. Ian Wyn Jones
10. Canolfan Morfa Bychan	£500	Cyng. Selwyn Griffiths Cyng. Carol Hayes
11. Clwb Snwcer Tremadog	£250	Cyng. Ian Wyn Jones Cyng. Richard Williams

Cyfraniadau A145		
12. Eisteddfod yr Urdd	£100	Cyng. Carol Hayes Cyng. Richard Williams
13. Yr Wylan	£750	Cyng. Gwilym Jones Cyng. Richard Williams
14. Neuadd Goffa Tremadog	£3,000	Cyng. Aled Griffith Cyng. Selwyn Griffiths
15. Y Ganolfan	£10,000	Cyng. Selwyn Griffiths Cyng. Gwilym Jones

290.2.22 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais : C19/1069/44/HY (wedi ebostio 25.1.22)

Lleoliad : Banc Hsbc, 62 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LN

Bwriad : Gosod 2 arwydd allanol newydd ar peiriant arian yn lle'r 2 arwydd presenol.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais / Application No.: C22/0103/44/LL (WEDI EI DDERBYN A'I YRRU YMLAEN 8.2.22)

Lleoliad: Flat, 146 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NU

Bwriad : Defnyddio lloriau uwch fel tŷ aml feddianaeth ar gyfer gweithwyr allweddol a heb unrhyw addasiadau i'r adeilad

(c) Rhif Cais / Application No.: C22/0102/44/LL (WEDI EI DDERBYN A'I YRRU YMLAEN 8.2.22)

Lleoliad : Is Y Coed, 18 Stryd Y Banc, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AA

Bwriad : Newid defnydd tŷ i dŷ aml feddianaeth ar gyfer gweithwyr allweddol

Mynegwyd pryderon ynglyn ag oblygiadau y ddau gais uchod o ran tanseilio natur y stryd; problemau parcio; diogelwch tân; gor-boblogeiddio; sicrhau mai gweithwyr allweddol yn unig fyddai'n rhentu'r 'stafelloedd.

Penderfynwyd :- bydd y Clerc – gyda chydweithrediad y Cyng Ian Wyn Jones – yn cysylltu â'r Adran Gynllunio i ofyn am fwy o wybodaeth ynglyn â'r 2 gais uchod. Bydd wedyn yn pasio'r wybodaeth ymlaen i'r Cynghorwyr fel y gallant ymateb yn unigol i'r 2 gais erbyn y dyddiad cau sef Mawrth 1af.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.00

Marian Roberts

10.2.2022